

Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 14eg Tachwedd 2022 am 7.00 o'r gloch.

Presennol/Present:

Y Cadeirydd/Chair Robert Jones a'r Cyngorwyr Bethan Lawton, Eleri Puw, Emrys Thompson, Elwyn Evans, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Dylan Jarman,

Ymddiheuriad am nad oedd enw Dylan Jarman wedi ei gofnodi yn bresennol yn y pwyllgor diwethaf(11/10/22)

1. Ymddiheuriadau/ Apologies:

Steve Lewis. Yn gwella ar ol llawdriniaeth.

2. Datgan diddordeb/ Declaration of interest: Neb/None.

3. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd. Cafwyd y cofnodion yn gywir/ minutes were received, E Th yn cynnig a phawb yn cytuno eu bod yn gywir onibai am y gwall gyda Dylan Jarman.

4. Cae Chwarae. Pob dim yn iawn a thaclus,gwair wedi ei dorri.

5. Mynwentydd. Pob dim yn iawn a thaclus a'r gwair a'r gwrych wedi eu torri. Twrch yn codi oddifewn mynwent y Llan.Wedi chwistrellu yr eiddew ar y waliau, cawn weld maes o law yr effaith.

6. Llwybrau rhif 20 Meriafel a rhif 5 Gamallt eisiau sylw. Anfon at Sam Hollingsworth.

7. Toiledau wedi cau. Beth yn cynnig ein bod yn monitro y sefyllfa dros y Gaeaf i weld beth fydd y sefyllfa. Wedi cael pris gan Abba Loos £25/yr wythnos am standard a £35/ yr wythnos am un anabl. Emrys Thompson yn eilio a phawb o'r un farn.

8. Adroddiad or gadair, Aelod o Gyngor Tywyn wedi cysylltu gyda cwyn am y canllawiau pren yn rhydd yn Castell y Bere.Wedi cyswllt a CADW yng Nghaerdydd, maent wedi cysylltu yn ôl ac yn gobeithio penodi rhywyn i wneud y gwaith atgyweirio, sydd heb ei wneud ers tua pedair blynedd ar y terfynnau .Nid oedd y canllawiau wedi dod i'r amlwg pan oeddent wedi archwilio y safle yn mis Mai ond efallai fod y tywydd sych wedi newid y sefyllfa. Mae swydd wag heb ei llenwi ac felly mae Gwynfor o Gaenarfon wedi cael galwad o Gaedydd i ddelio ar mater yn y byr dymor.

Heol y Dwr. Cadeirydd wedi cyfarfod a Gareth Smith. Gan nad ydym yn berchen ar y tir sydd a Japanese Knottweed arno nid ydym mewn sefyllfa i gyfrannu tuag at y gost, gan nad oedd pethau wedi ei roi i fewn ar gyfer achlysuron fel hyn yn ein Precept. Roeddynt hefyd wedi cytuno gyda contractiwr i wneud y gwaith dros gyfnod o dair blynedd. O weld yr effaith o waith y flwyddyn flaenorol fe ddylai fod yna welliant sylweddol erbyn y flwyddyn nesaf. Cytunwyd i'w gyfeirio at wefan Cynulliad Cymru i geisio am gymorth tuag at y gost gan y cyfarfod ar y noson. Emrys wedi anfon ebost heddiw. Bulling and Harassment in Councils. Pawb i'w ddarllen a'i gadw wrth law rhag ofn.Un llais Cymru a Society of Local Council Clerks SLCC, wedo rhoddi canllawiau Newydd wrth ei gilydd. Mae yn arweiniad hynod swmpus.

9. Adroddiad Clerc. Ebost wedi ei dderbyn gan Gwenllian Hughes, Prifysgol Bangor yn holi am Gymru Cymraeg i roi help llaw i ddarparu cynnal cymorth gyda Dementia.

10. Adroddiad Cyngorydd Beth Lawton: Wedi cael cyfarfod a'r bwrdd Iechyd. Ceisio sefydlu Minor injuries a minor illness 'drop in centres' i geisio lleihau y pwysau ar y Doctoriaid. Mae hefyd yn gweithio gyda chymorth Dyfrig Siencyn i ail leoli person o Abergynolwyn sydd gyda anabledau i dy pwrpasol at yr anghenion sydd angen.

11. Trysorydd. Anfoneb am dorri gwair cae chwarae a Mynwent y Llan a thorri gwrych. Urdd wedi anfon mantolen, ond gan fod trafodaeth wedi cymeryd lle fis diwethaf felly dim trafodaeth am 6 mis. Urdd wedi anfon apel am arian I Steddfod Genedlaethol Caerfyrddin, penderfyniad mae cefnogi pan fydd yn fwy lleol. Cyfrifon Terfynol: Emrys wedi casglu pethau at eu gilydd cyn mynd 'ir archwilwyr. Adroddiad Mantolen wedi eu rhannu i bawb. Diolch Emrys.
12. Kiosks: Groesffordd Caerberllan yn gweithio dim ymateb o'r lleill.
13. Swydd Clerc. Dim ymateb, eisiau cyswllt yn fuan gyda person yn dangos diddordeb.
14. Un Llais. Cyfarfod Rhithiol Nos Fercher cynt. Heddlu Gogledd Cymru : Dolwyddelen wedi cael cyhoeddusrwydd ar y targedu i'r gor yrru. Eisiau bod yn fwy agored a dim yn ddirgel fel yn flaenorol. 3 trosedd yn caniatáu llythyr i'w anfon ac yn cryfhau galwad i'r Heddlu ddod i edrych ar y sefyllfa.
15. Safle Treftadaeth. Nodi fod Gwenan wedi gadael y Swydd a bod Hanna Joyce wedi derbyn dyrchafiad. Wagen Chwarel. Cytunwyd i son wrth Cyngor Gwynedd pan ddaw cyfarfod.
16. Heol Y Dwr, Teulu Mathias sydd berchen y ffordd. Mae contractiwr yn barod i wneud y gwaith o lefelu 'planings' i wella sefyllfa y tyllau yn y ffordd. Problemau parcio ceir ar dir y Cyngor ger Capel Jeriwsalem. Dim MOT na Thrwydded arno. Pasiwyd i fod yn amyneddgar gyda'r person am y byr dymor.
17. Ardal ni 2035, Cynhaliwyd cyfarfod yn Aberdyfi gyda pob ardal yn rhoi mewnbwn, nid oedd yn gwneud llawer o synwyr gan nad oedd yr un broblem yn bodoli trwy yr holl ardal, ond fe godwyd pwyntiau dilys a gobeithio y cawn ymateb ffafriol. Beth wedi mynychu Cyfarfod Parc Eryri ar Zoom.
18. Adolygiad Ambiwlans Awyr: Newidiadau i'r strwythur, Cau Dinas Dinlle a Thrallwng ac ail leoli yn Rhuddlan sydd a dim ond lle i un hofrenydd. Mae yr heddlu wedi gadael y safle yn Rhuddlan oherwydd fod yna drafferth gyda'r safle pan fydd tywydd ddim yn ffafriol. Nid yw yn debyg y byddent am ddod i'r ardal yma yn y Gorllewin gan eu bod yn ffafrio rhedeg sawl hediad byr i godi ffigyrau er gwell. Mabon Ap Gwynfor yn gofyn am gefnogaeth i gadw y ddau safle, ac yn yr un modd Liz Saville am ysgwyddo ceisio arbed y ddwy safle.
19. NRW Abergynolwyn Forest Resource Plan. Ymgynghoriad ar gynllun torri coed a'u clirio ac ail blannu gyda choed Cynghenid. Dim mater ychwanegol yn codi.

1. Safle Mari Jones pob dim yn edrych yn eithaf yno.

Cyfarfod yn dod i ben 8.55 yh.